Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Crynodeb o Newidiadau Allweddol

2025/26

## 1 Cyd-destun

1.1 Mae'r Brifysgol yn adolygu ei Rheoliadau, ei Pholisïau a'i Gweithdrefnau Academaidd yn flynyddol. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r newidiadau allweddol sydd wedi cael eu gwneud ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025/26. Mae'r holl newidiadau wedi cael eu llywio gan adborth a dderbyniwyd gan staff, myfyrwyr a phartneriaid, ac a gymeradwywyd drwy strwythur llywodraethu academaidd y Brifysgol.

1.2 Bydd y Rheoliadau Academaidd yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Brifysgol.

## 2 Rheoliadau Academaidd

| Adran | Newid |
|---|---|
| A-7.1 Rhaglenni a dyfarniadau | Ychwanegwyd y dyfarniadau canlynol yn glir at y rhestr ddyfarniadau yn Adran A7.1:<br>- Tystysgrif mewn Addysg<br>- Tystysgrif Raddedig Broffesiynol<br>- Tystysgrif Addysg i Raddedigion |
| B – 4.1 Disgwyliadau ac Uchafswm Cyfnodau o Astudio | Mae'r uchafswm cyfnod astudio ar gyfer amrywiadau Prentisiaethau Gradd nawr yn cael ei arddangos yn glir yn y tabl. |
| E-4.3 Gwaith cwrs | Bydd confensiynau enwi ar gyfer ffeiliau gwaith cwrs a gyflwynwyd yn electronig yn cael eu diffinio gan fod y mater hwn wedi denu cwynion ac apeliadau oherwydd dryswch.<br><br>Mae'r confensiwn enwi Rhif Myfyriwr **– Cod Modiwl – Rhif Asesiad** wedi cael ei adnabod fel fformat sydd fel arfer yn ddisgwyliedig. |
| E – 10.3 Pasio a Methu eich Asesiadau - iawndal | Nid yw rhaglenni strwythuredig seiliedig ar 30 credyd yn cael sylw clir yn y rheoliadau iawndal.<br><br>Diwygiwyd fel a ganlyn: "Ar gyfer yr holl raglenni, bydd iawndal yn cael ei roi ar gyfer uchafswm o 20 credyd, a'r eithriad i hynny yw cynnig y Flwyddyn Sylfaen lle gellir rhoi iawndal ar gyfer uchafswm o 40 credyd, a rhaglenni seiliedig ar 30 credyd lle gellir rhoi iawndal ar gyfer uchafswm o 30 credyd. Ar gyfer yr holl raglenni eraill a ddarperir gan sefydliad partner gall hyn amrywio, cyfeiriwch at eich llawlyfr rhaglen." |

<table>
<tr><th>Adran</th><th>Newid</th></tr>
<tr><td>E – 10.4 Pasio a Methu eich Asesiadau - iawndal</td><td>Ar fodiwl, os oes gan un elfen ddefnydd o AI wedi'i gadarnhau yn ei erbyn gan arwain at Fethu, caiff ei hystyried fel nad ydych wedi rhoi cynnig arni ac felly ni ellir rhoi iawndal:<br><br>Ychwanegiad fel a ganlyn: "Mae marc cyffredinol y modiwl yn disgyn o fewn yr ystod ar gyfer iawndal, ond roedd y modiwl yn rhan o unrhyw weithdrefn Prifysgol (gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i Uniondeb Academaidd ac Addasrwydd i Ymarfer) lle cadarnhawyd y canlyniad gan arwain at ddyfarniad Cyfeirio/Methu unrhyw elfennau o gyfanswm marc y modiwl."</td></tr>
<tr><td>Ail-sefyll UG-E6</td><td>Mae'r gofyniad trosglwyddo i symud ymlaen yn gyflym i'r rhaglen safonol yn seiliedig ar y cynnig cyntaf ac <u>nid</u> y marciau ail-sefyll, er mwyn helpu i gynnal canlyniadau cyson.<br><br>Diwygiwyd fel a ganlyn:<br>"Ar gyfer Rhaglenni Gradd Israddedig dwy flynedd, gyda Blwyddyn Sylfaen neu hebddi, os yw eich methiannau ar y cynnig cyntaf yn fwy na 30 credyd o'r Bloc yr ydych yn ei astudio..."</td></tr>
<tr><td>UG-F Datblygiad i'r Lefel Astudio Nesaf</td><td>Cyflwyno rheoliadau annibynnol yn manylu ar ddatblygiad myfyrwyr ar naill ai Rhaglenni Gradd Israddedig dwy flynedd neu Raglenni Gradd Israddedig dwy flynedd gyda Blwyddyn Sylfaen.<br><br>Mae'r cynnwys diwygiedig fel a ganlyn:<br>"Ar gyfer Rhaglenni Gradd Israddedig dwy flynedd -<br>• Myfyrwyr yn cyrraedd man datblygiad ar ddiwedd Bloc A.<br>• Gall myfyriwr symud ymlaen yn ffurfiol i Floc B dim ond os yw'r canlynol yn wir:<br>  o Maent wedi pasio pob modiwl ar y cynnig cyntaf.<br>  o Mae ganddynt farc cyfartalog o TBA%<br>• Fodd bynnag, mae myfyrwyr yn dechrau ar Floc B (y modiwlau lefel 5 sydd yn weddill) yn dibynnu ar benderfyniad y Bwrdd Datblygiad ac yn ôl eu risg eu hunain. Mae hyn oherwydd na fydd y cyfarfod bwrdd wedi cael ei gynnal cyn i addysgu ar y modiwlau hyn ddechrau.<br>• Rhaid i fyfyrwyr nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cynnydd ar ddiwedd Bloc A drosglwyddo i'r rhaglen safonol.<br><br>Ar gyfer Rhaglenni Gradd Israddedig gyda Blwyddyn Sylfaen -<br>• Gall myfyriwr symud ymlaen yn ffurfiol i Floc A dim ond os yw'r canlynol yn gywir:</td></tr>
</table>

| Adran | Newid |
|---|---|
| | o Maent wedi pasio pob modiwl ar y cynnig cyntaf.<br>o Mae ganddynt farc cyfartalog o TBA%<br>• Fodd bynnag, mae myfyrwyr yn cael dechrau ar Floc B (y modiwlau lefel 5 sydd yn weddill) yn ddibynnol ar benderfyniad y Bwrdd Datblygiad ac yn ôl eu risg eu hunain. Mae hyn oherwydd na fydd y cyfarfod bwrdd wedi cael ei gynnal cyn i addysgu ar y modiwlau hyn ddechrau.<br>• Rhaid i fyfyrwyr nad ydynt yn bodloni'r meini prawf datblygiad ar ddiwedd Bloc FY drosglwyddo i'r rhaglen safonol." |
| UG-G 1.5 Dyfarniadau<br><br>Hefyd: TPG-F 5, TPG-G 5, TPG-I 7, TPG-J 8 | Cyfeirnod clir i ddweud y gellir cymhwyso meini prawf dosbarthu dyfarniadau ffiniol i ddyfarniadau/rhaglenni Israddedig ac Uwchraddedig Atodol.<br><br>Ychwanegwyd y canlynol: "Mae'r meini prawf ffiniol hwn hefyd yn gymwysadwy i ddyfarniadau, rhaglenni Atodol". |
| TPG-J 9. Dyfarniad Gradd Meistr gydag Ymarfer Uwch | Mae problemau gydag achosion ffiniol mewn rhaglenni nad oes ganddynt draethawd hir neu gyfwerth oherwydd y canlynol: "Rhaid i farc traethawd hir fod yn y dosbarthiad uwch."<br><br>Diwygiwyd fel a ganlyn:<br>"Rhaid i farc traethawd hir fod yn y dosbarthiad uwch, ac eithrio os nad yw'r rhaglen yn cynnwys modiwl ymchwil/traethawd hir amlwg." |
| TPG-K 2. Dyfarniadau Gadael Rhaglen Gradd Meistr | Mae'r canlynol wedi cael ei dynnu allan gan na ddylai myfyrwyr gael eu cosbi am gael mynediad gyda RPL:<br>"Fodd bynnag, os ydych wedi cael dyfarniad credydau drwy'r weithdrefn RPL/RPEL, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer dyfarniad Teilyngdod neu Ragoriaeth yn y Diploma Ôl-raddedig na'r Dystysgrif Ôl-raddedig." |
| IMD-F 1. Symud ymlaen i'r Lefel Nesaf o Astudio | Ailgyflwyno cynnwys eglurhaol yn ymwneud â throsglwyddo i BEng/BSc/BA nad yw'n integredig ar gyfer y myfyrwyr rheiny sydd wedi tanberfformio ar raglenni Meistr Integredig |
| Rheoliadau ar gyfer dyfarniadau Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET) | Adran newydd yn arbennig ar gyfer dyfarniadau PCET wedi'i ychwanegu i gynnwys Tystysgrif mewn Addysg (PCET), Tystysgrif Broffesiynol i Raddedigion Addysg (PCET) a'r Dystysgrif Addysg i Raddegion (TAR). |

## 3 Llywodraethu Academaidd

- Bydd dau bwyllgor newydd yn cymryd lle'r Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu:
    - Y Pwyllgor Ansawdd a Safonau
    - Pwyllgor Cyfleoedd a Phrofiadau Myfyrwyr
- Ni fydd y Bwrdd Cyfadran Astudiaethau, yr Is-Bwyllgor Rhaglenni Academaidd na'r Is-Bwyllgor Prentisiaethau Gradd yn gweithredu yn eu ffurf gyfredol mwyach. Bydd eu cyfrifoldebau'n cael eu hysgwyddo gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau, sydd wedi'i sefydlu o'r newydd.
- Bydd y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd, y Pwyllgor Datblygu Portffolio Academaidd a'r Pwyllgor Ymchwil yn parhau heb unrhyw newid.

***Ffigur 1: Strwythur Llywodraethu Academaidd***

